



# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cyhoeddwyd: Mai 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 209A2013



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif drwy hybu gwelliannau fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Lisa Williams a Ron Price o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae'r Awdurdod yn rheoli ei raglen gwella yn dda, ond nid yw'r broses o gyhoeddi adroddiadau cyhoeddus ar berfformiad mor glir a chynhwysfawr ag y gallai fod 8

Mae'r Awdurdod yn gwneud cynnydd o ran cyflawni gwelliant yn ei swyddogaethau craidd, er bod y cynnydd bychan yn lefel yr anafiadau o ganlyniad i danau a nifer y damweiniau traffig angeuol a difrifol ar y ffordd yn parhau yn faes i ganolbwyntio arno yn y dyfodol 8

Mae trefniadau gwerthuso a chyflwyno adroddiadau'r Awdurdod yn well nag y buont mewn blynyddoedd blaenorol, ond gellid atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r cyhoedd a sicrhau eu bod yn fwy hygyrch, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru 12

Mae'r Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2012-13, er ei fod yn wynebu heriau parhaus wrth weithredu ei newidiadau sydd wedi eu cynllunio i wasanaethau 16

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 20

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 21

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 23

Atodiad 4
Amcanion gwella ac hunanasesiad Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 25

Atodiad 5
Cynigion ar gyfer gwella 2012-13 28

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r ffordd y mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (yr Awdurdod) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 Yn gyffredinol, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod yr Awdurdod yn rheoli ei raglen gwella yn dda ond nad yw'r broses o gyhoeddi adroddiadau cyhoeddus ar berfformiad mor glir a chynhwysfawr ag y gallai fod.

3 Cafwyd gennym fod yr Awdurdod yn gwneud cynnydd o ran cyflawni gwelliant yn ei swyddogaethau craidd, er bod y cynnydd bychan yn lefel yr anafiadau o ganlyniad i danau a nifer y damweiniau traffig angeuol a difrifol ar y ffordd yn parhau yn faes i ganolbwyntio arno yn y dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- ymatebwyd i lai o danau mewn anheddau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac er y lleihaodd nifer y marwolaethau, roedd nifer yr anafiadau wedi cynyddu o gymharu a lleihad ledled Cymru;
- ymatebwyd i lai o danau ar safleoedd annomestig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac ni chafwyd unrhyw farwolaethau, ond cynyddodd nifer yr anafiadau ychydig o gymharu â lleihad ledled Cymru;
- ymatebwyd i lai o danau bwriadol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac erys nifer y marwolaethau yn isel;
- gostyngodd nifer y damweiniau traffig ar y ffordd yr ymatebwyd iddynt a nifer y bobl a anafwyd ond cynyddodd nifer y damweiniau lle cafwyd marwolaethau ac anafiadau difrifol.

4 Cafwyd gennym hefyd fod trefniadau gwerthuso a chyflwyno adroddiadau'r Awdurdod yn well nag y buont mewn blynyddoedd blaenorol, ond gellid atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r cyhoedd a sicrhau eu bod yn fwy hygyrch, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd bod yr Awdurdod:

- wedi llunio barn fwy cadarn a chytbwys o'i berfformiad yn 2011-12, ond byddai adlewyrchu canllawiau Llywodraeth Cymru yn llawn yn atgyfnerthu'r broses o gyflwyno adroddiadau ar welliant drwy ddarparu golwg o pa mor dda mae'r Awdurdod yn teimlo y mae wedi llwyddo yn ei amcanion, gan egluro pam fod y wybodaeth a ddefnyddiwyd yn ei hunanasesiad yn berthnasol a defnyddio llai o iaith dechnegol sy'n anodd i rai pobl ei deall;

- wedi cymryd camau i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod ei asesiad ar gael, ond ei fod yn dibynnu'n sylweddol ar y fformat electronig ac, o ganlyniad, gall mynediad ehangach i'r data fod yn broblem i rai pobl;
- wedi defnyddio ystod gul o wybodaeth berthnasol i ddod i'w gasgliadau a'i fod yn gweithio i wella ei allu i ddangos effaith ei weithgarwch.

5 I gloi, daethom i'r casgliad fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2012-13, er ei fod yn wynebu heriau parhaus wrth weithredu ei newidiadau sydd wedi eu cynllunio i wasanaethau. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod y trefniadau cynllunio busnes wedi gwella'n sylweddol, eu bod yn darparu darlun cliriach o'r camau gweithredu y bwriedir eu cymryd a'u bod yn canolbwyntio fwy ar ganlyniadau, ond fod heriau yn parhau wrth geisio cyflawni'r newidiadau hyn;
- bod yr Awdurdod yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol;
- gwneir cynnydd da i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
- er bod rhai gwendidau, mae'r Awdurdod yn parhau i wella ei ddull o ymgysylltu â'r cyhoedd;
- mae'r trefniadau llywodraethu wedi cael eu hadolygu'n effeithiol fel rhan o broses Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod.

# Argymhellion

6 Ni wneir unrhyw argymhellion ffurfiol yn yr adroddiad hwn.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda help gan arolygiaethau Cymru, gan gynnwys Tîm Asesu Cymheiriaid Tân ac Achub[1], rydym wedi dwyn ynghyd ddarlun o'r hyn y mae pob awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut y mae'n mynd ati i wneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad yr Awdurdod ei hun.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Awdurdod. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella ac mae cynigion a wnaed yn ystod y flwyddyn i'w gweld yn Atodiad 5. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Awdurdod ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn gwneud cynigion i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24, Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

1 Ym mis Tachwedd 2006, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru drefniadau ar gyfer asesu perfformiad gweithredol awdurdodau tân ac achub. Fel rhan o'r broses asesu, cynhelir hunanasesiad yn erbyn fframwaith a ddarperir yn ganolog ynghyd ag adolygiad gan dîm asesu cymheiriaid sy'n cynnwys swyddogion o awdurdodau tân ac achub eraill.

## Mae'r Awdurdod yn rheoli ei raglen gwella yn dda, ond nid yw'r broses o gyhoeddi adroddiadau cyhoeddus ar berfformiad mor glir a chynhwysfawr ag y gallai fod

### Mae'r Awdurdod yn gwneud cynnydd o ran cyflawni gwelliant yn ei swyddogaethau craidd, er bod y cynnydd bychan yn lefel yr anafiadau o ganlyniad i danau a nifer y damweiniau traffig angeuol a difrifol ar y ffordd yn parhau yn faes i ganolbwyntio arno yn y dyfodol

11 Isod rydym wedi rhoi crynodeb o berfformiad yr Awdurdod mewn pedwar maes allweddol (tanau mewn anheddau, tanau ar safleoedd annomestig, cynnau tanau yn fwriadol, a damweiniau traffig ar y ffordd) sy'n adlewyrchu Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru a swyddogaethau neu ddyletswyddau craidd awdurdodau tân ac achub yn y DU, sef:

- hyrwyddo diogelwch tân drwy ddarparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth i atal tanau a marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau;
- rhoi cyngor, ar gais, ar sut i atal tanau a chyfyngu ar eu gallu i ymledu mewn adeiladau a mathau eraill o eiddo, ac ar ffyrdd o ddianc os bydd tân;
- darparu ar gyfer diogelu bywyd ac eiddo os bydd tân;
- darparu ar gyfer achub a diogelu pobl rhag niwed difrifol os bydd damweiniau traffig ar y ffordd;
- ymateb i argyfyngau eraill neu bosibiliadau o'r fath fel y bo angen i ddiogelu pobl, eiddo neu'r amgylchedd.

### Ymatebwyd i lai o danau mewn anheddau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac er y lleihaodd nifer y marwolaethau, roedd nifer yr anafiadau wedi cynyddu o gymharu a lleihad ledled Cymru

12 Gwelwyd gostyngiad o naw y cant yng nghyfanswm nifer y tanau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 674 o achosion yn 2010-11 i 610 yn 2011-12). Hefyd:

- cafwyd gostyngiad o wyth y cant yn nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 604 yn 2010-11 i 555 yn 2011-12), sy'n well na'r gostyngiad cyfartalog o ddau y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod;
- cafwyd gostyngiad o 21 y cant yn nifer y tanau mewn anheddau a ddechreuwyd yn fwriadol (o 70 o achosion yn 2010-11 i 55 yn 2011-12) sy'n well na'r gostyngiad cyfartalog o 19 y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

13 Bu farw tri pherson mewn tanau mewn anheddau yn ystod 2011-12 (pedwar yn llai na 2010-11). Cafwyd cynnydd o 31 y cant yn nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau mewn anheddau yn ystod 2011-12 (o 42 yn 2010-11 i 55 yn 2011-12) o gymharu â gostyngiad o 21 y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

14 Gwelir tystiolaeth sy'n awgrymu bod larymau mwg a roddir am ddim fel rhan o waith yr Awdurdod ar Wiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn cyrraedd y rheini mewn perygl, ond ar raddfa arafach nag awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru. O'r tanau yr ymatebwyd iddynt:

- ymatebwyd i lai o danau mewn eiddo heb larwm mwg (o 42 y cant yn 2010-11 i 39 y cant yn 2011-12), ond mae'r gyfran hon yn parhau'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 34 y cant ar gyfer 2011-12;
- bu cynnydd yn nifer yr achosion o gyfarpar canfod tân a weithredwyd (o 44 y cant yn 2010-11 i 48 y cant yn 2011-12), er bod y gyfran hon yn is o hyd na chyfartaledd Cymru, sef 51 y cant, ar gyfer yr un cyfnod;
- roedd gan lai o anheddau gyfarpar canfod tân wedi ei osod na chafodd ei weithredu (o 14 y cant yn 2010-11 i 12 y cant yn 2011-12) sy'n is na chyfartaledd Cymru o 16 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

## Ymatebwyd i lai o danau ar safleoedd annomestig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac ni chafwyd unrhyw farwolaethau, ond cynyddodd nifer yr anafiadau ychydig o gymharu â lleihad ledled Cymru

15 Cafwyd gostyngiad o 15 y cant yn nifer y tanau ar safleoedd annomestig yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 333 o achosion yn 2010-11 i 282 yn 2011-12), sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o 17 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

16 Ni fu farw unrhyw bobl mewn tanau ar safleoedd annomestig yn ystod 2011-12 (fel yn 2010-11) yn unol â'r sefyllfa ledled Cymru. Cafwyd cynnydd yn nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau o'r fath o ddau yn 2010-11 i 11 yn 2011-12, o gymharu â'r gostyngiad o 42 y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod. Fodd bynnag, mae'r niferoedd hyn yn fach a gall pob digwyddiad gael effaith sylweddol wrth gymharu blynyddoedd.

17 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod orfodi darpariaethau Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 i sicrhau bod mesurau diogelwch tân digonol ar waith mewn eiddo masnachol a busnesau. Mae hefyd yn gallu rhoi cyngor a chymryd camau gorfodi pan fydd yn ystyried bod angen, er enghraifft os ceir risg ddifrifol nad yw'n cael ei rheoli. Yn ystod Hydref 2012, adolygodd y Tîm Asesu Cymheiriaid Ddiogelwch Tân mewn Busnesau a chanfu fod yr Awdurdod:

- wedi rhoi systemau ar waith ar gyfer casglu a dadansoddi data er mwyn blaenoriaethu risgiau a thargedu gweithgareddau ac adnoddau;
- yn defnyddio System Gwybodaeth Reoli CFRMIS i storio a rheoli gwybodaeth am risgiau;
- yn cydnabod cyfyngiadau yn y set data o ran anheddau nas cofnodwyd a'i fod wedi cymryd camau i ymdrin â hyn;
- yn cydnabod y gall CFRMIS weithredu fel storfa unigol ar gyfer gwybodaeth am risgiau, er bod cyfyngiadau adnoddau o ran staff â'r sgiliau i ddatblygu'r MIS yn golygu na fu hynny'n ymarferol hyd yn hyn;
- yn cydnabod buddiannau strwythur sy'n defnyddio swyddogaethau Diogelwch Tân mewn Busnesau yn seiliedig ar orchmynion wedi'u hategu gan adran Diogelwch Tân mewn Busnesau ganolog, gan gynnwys gwneud y defnydd gorau o adnoddau drwy sicrhau bod hyblygrwydd i reoli blaenoriaethau yn lleol;
- yn darparu tystiolaeth gadarn o lif gwybodaeth effeithiol ddwy ffordd drwy gyfnewid gwybodaeth weithredol gritigol am risgiau rhwng Diogelwch Tân mewn Busnesau a rhanddeiliaid mewnol eraill;
- yn cydnabod nad oedd mesurau o lwyddiant yn cael eu cyfleu i ddinasyddion.

## Ymatebwyd i lai o danau bwriadol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac erys nifer y marwolaethau yn isel

18 Cafwyd gostyngiad o 26 y cant yn nifer y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 3,278 o achosion yn 2010-11 i 2,426 yn 2011-12), sy'n well na chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o 25 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

19 Dechreuwyd 54 y cant o'r holl danau yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2011-12 yn fwriadol, sy'n is na 2010-11 (58 y cant) ac yn is na chyfartaledd Cymru o 65 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

20 Cafwyd gostyngiad yn nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau bwriadol o ddau yn 2010-11 i saith yn 2011-12, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o dri y cant ar gyfer yr un cyfnod. Fodd bynnag, mae'r niferoedd hyn yn fach a gall pob digwyddiad gael effaith sylweddol wrth gymharu blynyddoedd.

21 Bu farw un person mewn tân bwriadol yn ystod 2011-12 (fel yn 2010-11).

## Gostyngodd nifer y damweiniau traffig ar y ffordd yr ymatebwyd iddynt a nifer y bobl a anafwyd ond cynyddodd nifer y damweiniau lle cafwyd marwolaethau ac anafiadau difrifol

22 Nid oes dyletswydd statudol ar yr Awdurdod o ran diogelwch ar y ffyrdd, ond mae'n cydweithio â'r heddlu ac eraill i sicrhau bod pobl yn fwy ymwybodol o beryglon y ffyrdd ac i wella diogelwch. Yn ystod 2011-12, cynhaliodd yr Awdurdod nifer o fentrau, rhai gyda phartneriaid, a gynlluniwyd i leihau nifer y damweiniau traffig ar y ffordd gan gynnwys:

- Beicio diogel – prosiect i leihau nifer y marwolaethau, anafiadau a damweiniau gan ddefnyddwyr beiciau modur;
- Diogelwch Beiciau Modur, Pass Plus Cymru, Crash Scene Initiative Cymru – i addysgu grwpiau targed.

23 Bu rhai gwelliannau o ran diogelwch ar y ffyrdd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru:

- cafwyd gostyngiad o saith y cant yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd yn ystod 2011-12 (o 1,078 yn 2010-11 i 1,007 yn 2011-12), sef yr un peth â'r gostyngiad ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod;
- cafwyd cynnydd o naw y cant yn nifer y damweiniau angheuol a difrifol (o 377 o ddamweiniau yn 2010 i 413 o ddamweiniau yn 2011) sy'n well na'r cynnydd o 14 y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod;
- arhosodd nifer y bobl a fu farw mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd yn gymharol debyg (37 yn 2010 a 38 yn 2011);
- cafwyd gostyngiad o chwech y cant yn nifer yr anafiadau (o 3,550 yn 2010 i 3,345 yn 2011), sef yr un peth â chyfartaledd Cymru ar gyfer yr un cyfnod;
- bu llai o yrwyr 25 oed ac iau mewn damweiniau yn 2011 o gymharu â 2010 (987 o gymharu â 1,110), sef gostyngiad o bump y cant sy'n well na'r gostyngiad o bedwar y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod;
- cafodd llai o yrwyr beiciau modur eu hanafu yn 2011 nag yn 2010 (249 o gymharu â 260 yn 2010), sef gostyngiad o bedwar y cant, sy'n is na'r gostyngiad o bump y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

## Mae trefniadau gwerthuso a chyflwyno adroddiadau'r Awdurdod yn well nag y buont mewn blynyddoedd blaenorol, ond gellid atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r cyhoedd a sicrhau eu bod yn fwy hygyrch, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

### Lluniodd yr Awdurdod farn fwy cadarn a chytbwys o'i berfformiad yn 2011-12, ond byddai adlewyrchu canllawiau Llywodraeth Cymru yn llawn yn atgyfnerthu'r broses o gyflwyno adroddiadau ar welliant drwy ddarparu golwg o pa mor dda mae'r Awdurdod yn teimlo mae wedi llwyddo yn ei amcanion, gan egluro pam fod y wybodaeth a ddefnyddiwyd yn ei hunanasesiad yn berthnasol a defnyddio llai o iaith dechnegol sy'n anodd i rai pobl ei deall

24 Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol (Ionawr 2012), daethom i'r casgliad nad oedd y trefniadau ar gyfer gwerthuso perfformiad a chyflwyno adroddiadau yn ddigon cadarn, er bod camau ar waith i'w hatgyfnerthu. Roedd asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn 2010-11 yn gryno iawn, wedi'i gyfyngu i'r camau gweithredu a gymerwyd o fewn y thema Rheoli Risg (er bod pob Amcan Gwella wedi'i gynnwys yn y maes hwn). Ni ddatganodd, ym marn yr Awdurdod, pa mor dda yr oedd wedi perfformio yn 2010-11 (fesul thema nac yn gyffredinol) neu, os nad oedd wedi perfformio'n dda mewn unrhyw faes penodol, beth roedd yn bwriadu ei wneud am hynny. Roedd hyn yn rhannol oherwydd Amcanion Gwella cyffredinol iawn yr Awdurdod ar gyfer 2010-11 a oedd yn ei gwneud hi'n anodd asesu cynnydd.

25 Cyfeiriodd Adroddiad Asesu Perfformiad yr Awdurdod ar gyfer 2011-12, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2012, at ei holl flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn a dangosodd lefel well o hunanymwybyddiaeth na'r flwyddyn flaenorol. Rhoddodd adroddiad mwy cytbwys o'i berfformiad; gan nodi gwaith pellach mewn rhai meysydd lle na chwblhawyd yr holl gamau gweithredu a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â hyrwyddo ei lwyddiannau.

26 Er ei fod wedi gwneud gwelliannau, ym mis Ionawr 2013 nodwyd gennym fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd o dan y Mesur ond y dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n well â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Yn arbennig, mae elfennau o Adroddiad Asesu Perfformiad yr Awdurdod ar gyfer 2011-12 nad ydynt yn adlewyrchu'n llawn ganllawiau Llywodraeth Cymru ond y byddent yn gwneud hynny pe bai'r Awdurdod yn gwneud y canlynol:

- Nodi'r meysydd ar gyfer gwella yn gliriach. Mae'r Asesiad o Berfformiad yn cynnwys amrywiol adrannau, mae pump ohonynt yn seiliedig ar themâu allweddol ac yn cynnwys gwybodaeth am waith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r meysydd ar gyfer gwella. Gan fod y ddogfen yn cyfeirio at 11 o Amcanion Strategol hefyd, gall pobl ddrysu ynghylch beth y mae'r Awdurdod yn adrodd yn ei erbyn.

- Cynnwys datganiad clir yn nodi i ba raddau y mae'n teimlo ei fod wedi cyflawni pob un o'i feysydd ar gyfer gwella (gan mai dyma'r Amcanion Gwella blynyddol). Mae'r Awdurdod wedi cynnwys datganiad cyffredinol ei fod wedi cael 'blwyddyn eithriadol o lwyddiannus' ond nid yw wedi ymhelaethu ar hyn nac wedi rhoi barn ar feysydd unigol ar gyfer gwella.

- Cynnwys rhesymeg i egluro pam bod mesurau penodol a ddefnyddir yn briodol ar gyfer gwerthuso cynnydd ymhob un o'r meysydd ar gyfer gwella. Defnyddiwyd elfennau o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC), y Dangosyddion Craidd (DC) a data lleol ond caiff rhai eu defnyddio sawl gwaith ac mewn rhai achosion, prin yw'r cyswllt gyda'r maes ar gyfer gwella a/neu nid ydynt yn hawdd i'w deall. Byddai mwy o esboniad ac ymhelaethu ar y data cymharol a ddefnyddiwyd hefyd o gymorth o ran meithrin dealltwriaeth y darllenydd o'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir.

- Defnyddio esboniadau cliriach sy'n galluogi'r darllenwyr i weld a deall effaith gwelliannau a newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn. Mae'r Asesiad o Berfformiad wedi'i ysgrifennu'n glir mewn sawl man, ond nid yw'r canlyniadau bob amser yn glir; gall y duedd i ddefnyddio iaith 'dechnegol' hefyd ddrysu rhai pobl.

27 Mae adolygiad o berfformiad yn swyddogaeth reolaidd ac arferol drwy'r sefydliad cyfan, yn cynnwys rheolwyr ac aelodau yn y gwaith o asesu a rheoli perfformiad. Caiff canlyniadau perfformiad eu dadansoddi, gyda'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â meysydd gwan a heriau yn y dyfodol. Mae'r broses o baratoi'r Asesiad o Berfformiad yn rhoi ffocws i'r Awdurdod herio ei hun, dysgu a myfyrio ar ei berfformiad, ac adrodd ar ei gynnydd i'r cyhoedd.

## Cymerodd yr Awdurdod gamau i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod ei asesiad ar gael, ond mae'n dibynnu'n sylweddol ar y fformat electronig ac, o ganlyniad, gall mynediad ehangach i'r data fod yn broblem i rai pobl

28 Cyhoeddwyd Asesiad yr Awdurdod o Berfformiad ar gyfer 2011-12, am y tro cyntaf, ar ffurf electronig yn bennaf er mwyn rhoi gwybodaeth mewn ffordd hyblyg a rhyngweithiol. Sicrhaodd yr Awdurdod ei fod ar gael i'r cyhoedd graffu arno drwy hyrwyddo'r ffaith ei fod ar gael drwy ohebiaeth e-bost uniongyrchol at randdeiliaid a sicrhau ei fod ar gael yn hawdd ar wefan yr Awdurdod (ar yr hafan). Mae copïau ar gael ar gais gan Bencadlys y Gwasanaeth. Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol, fel Twitter, i hyrwyddo'r Asesiad o Berfformiad ac i roi cyfle i'r cyhoedd gyflwyno eu sylwadau ar yr adroddiad.

29 Nid yw'r Awdurdod wedi cynhyrchu 'crynodeb cyhoeddus' ar wahân a byddai gwneud hynny yn helpu'r cyhoedd i ddeall y sefyllfa gyffredinol a gall weithredu fel ffordd o dywys y cyhoedd drwy'r asesiadau manylach ar gyfer pob maes ar gyfer gwella.

## Defnyddiodd yr Awdurdod ystod gul o wybodaeth berthnasol i ddod i'w gasgliadau ac mae'n gweithio i wella ei allu i ddangos effaith ei weithgarwch

30 Canfu ein harchwiliad o ddangosyddion perfformiad fod gan yr Awdurdod systemau dibynadwy ar waith i sicrhau bod y dangosyddion perfformiad a ddefnyddir ganddo yn ei adroddiadau yn gywir. Mae'r Awdurdod wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ystod ein Harchwiliad o Ddangosyddion Perfformiad 2010-11 o ran gwella amseroldeb a chywirdeb y data a ddelir yn y System Cofnodi Digwyddiadau, a mabwysiadu prosesau cadarnach ar ddiwedd y flwyddyn.

31 Nododd ein Hadroddiad Gwella Blynyddol 2012 fod angen i'r Awdurdod ddatblygu mesurau perfformiad priodol ymhellach a chyflwyno adroddiadau arnynt, a fydd yn galluogi iddo asesu p'un a gyflawnwyd yr Amcanion Gwella. Er bod yr Awdurdod wedi defnyddio rhywfaint o wybodaeth ychwanegol, megis nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd gan ddiogelwch tân mewn busnesau, data blychau sgiliau, ymosodiadau ar griwiau a nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gynhaliwyd eleni, mae'n parhau i ddibynnu'n bennaf ar y dangosyddion statudol a chraidd. Byddai cynnwys mwy o ddangosyddion lleol yn rhoi darlun mwy 'cytbwys' o berfformiad.

32 Darparodd yr Awdurdod ddata ynglŷn â pha mor dda y mae wedi perfformio o gymharu â'r tair blynedd flaenorol, ond nid yw'n gwneud cymhariaeth yn erbyn ei dargedau ar gyfer y flwyddyn (er y caiff targedau ar gyfer 2012-13 eu nodi). Er bod yr Awdurdod yn darparu data cymharol gydag awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru, nid oes unrhyw gymhariaeth yn erbyn awdurdodau gwella a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Caiff cymhariaeth naratif ag awdurdodau tân ac achub eraill yn y DU ei chynnwys ond nid yw'n hawdd ei deall ac nid oes llawer o esboniadau i gyd-fynd â'r gymhariaeth. Ni ddefnyddir gwybodaeth o arolygon boddhad nac arolygon o ddinasyddion i gadarnhau barn y gymuned ehangach yn yr asesiad.

33 Mae Asesiad yr Awdurdod o Berfformiad yn cydnabod na chaiff pob Dangosydd Craidd ei ddefnyddio yn yr adroddiad, ac yn cyfeirio at y ffaith eu bod ar gael ar wefan yr Awdurdod. Awgryma Llywodraeth Cymru, yn ei Fframwaith Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub, y dylid cynnwys y mesurau canlynol (lleol yn bennaf), na chyflwynir adroddiad arnynt ar hyn o bryd, yn adroddiad yr Awdurdod ar yr asesiad o berfformiad:

- perfformiad wrth gynnal cymhwysedd gweithredol (er y caiff data bylchau sgiliau ei gynnwys);
- perfformiad yn erbyn Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Awdurdod Tân ac Achub Cymru;
- perfformiad yn erbyn Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod (er y caiff nifer y siaradwyr Cymraeg a gyflogir ei gynnwys);
- gwybodaeth mewn perthynas â chynaliadwyedd (lle mae amcan gwella penodol ar gyfer hyn).

34 Nid yw'r Awdurdod bob amser yn gwerthuso effaith ei weithgarwch yn llawn. Er enghraifft, er bod adran o dan bob thema gyda'r pennawd 'pa wahaniaeth y mae ein gwelliannau wedi'i wneud a sut rydym yn ei fesur', nid yw'r naratif sy'n dilyn yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ac nid yw'n disgrifio'n glir beth mae'r newidiadau a ddisgrifir yn y camau gweithredu yn ei olygu. Cydnabu'r Awdurdod y maes hwn ar gyfer gwella ac mae wedi bod yn datblygu mesurau sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau i asesu perfformiad yn erbyn blaenoriaethau 2012-13 ac wrth bennu Amcanion Gwella 2013-14.

## Mae’r Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â’r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2012-13, er ei fod yn wynebu heriau parhaus wrth weithredu ei newidiadau sydd wedi eu cynllunio i wasanaethau

### Mae’r trefniadau cynllunio busnes wedi gwella’n sylweddol, maent yn darparu darlun cliriach o’r camau gweithredu y bwriedir eu cymryd ac yn canolbwyntio fwy ar ganlyniadau ond mae heriau yn parhau wrth geisio cyflawni’r newidiadau hyn

35 Mae arweinyddiaeth yr Awdurdod yn parhau i gyflawni’r newidiadau y cytunwyd arnynt yn y Rhaglen Adolygu Gwasanaethau. Mae mecanweithiau i fonitro cynnydd yn gyson mewn lle ac mae fforymau yn bodoli er mwyn i uwch-reolwyr ystyried unrhyw gamau cywiro angenrheidiol os oes llithro. Fodd bynnag, mae rhai o’r newidiadau sydd wedi eu cynllunio wedi profi yn anodd i’w cyflawni ac, er fod swyddogion ac aelodau wedi gwneud penderfyniadau anodd, mae heriau’n parhau, yn arbennig mewn perthynas â newidiadau criwio. Byddwn yn parhau i fonitro hyn fel rhan o’n gwaith archwilio yn 2013-14.

36 Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol yn 2012, mae aelodaeth yr Awdurdod wedi newid yn sylweddol: dychwelodd pump aelod ac roedd 19 aelod yn newydd ac yn gwasanaethu ar yr Awdurdod am y tro cyntaf. Mae’r broses o enwebu aelodau o un cyngor yn parhau i gael ei datblygu. O ganlyniad, cynhaliwyd digwyddiadau hyfforddi amrywiol er mwyn briffio aelodau’n llawn yn eu rolau newydd.

37 Cyflawnodd yr Awdurdod ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur a gweithredodd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Ym mis Hydref 2011, cyhoeddodd yr Awdurdod ei Gynllun Gwella ar gyfer 2012-13.

38 Rhoddodd yr Awdurdod esboniad clir o pam y dewiswyd ei bump amcan gwella ar gyfer 2012-13. Mae pob amcan gwella yn cynnwys disgrifiad o sut y bydd yr Awdurdod yn gwybod p’un a yw’n cael effaith gadarnhaol. Bydd hyn yn ddefnyddiol wrth egluro i ddinasyddion beth y gallant ei ddisgwyl o ganlyniad i’r amcanion gwella drwy ddefnyddio disgrifiadau naratif ac mae’r Awdurdod yn parhau i ystyried pa fesurau perfformiad sy’n ategu hyn.

39 Nodir y camau sydd eu hangen i gyflawni’r amcanion gwella yn glir a chânt eu monitro’n fisol gan uwch reolwyr. O fis Ebrill 2012, diwygiodd yr Awdurdod ei drefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau i aelodau er mwyn darparu gwybodaeth fwy amserol sy’n rhoi cyfle i uwch reolwyr ac aelodau nodi unrhyw gamau cywirol sydd eu hangen a chymryd y camau hynny os na fydd y cynnydd yn unol â’r hynny a ragwelwyd. Mae’r gyfres hon o adroddiadau yn darparu gwybodaeth fanwl yn erbyn y camau gweithredu o fewn cynlluniau busnes unigol sydd eu hangen i gyflawni’r amcanion gwella ac maent yn gynhwysfawr ac yn hawdd i’w darllen, ond nid ydynt wedi’u cysylltu ag amcanion gwella nac wedi’u coladu i roi barn gyffredinol o gyflawniad cyffredinol yn erbyn yr amcanion gwella. Er bod y broses o gyflwyno adroddiadau ar fesurau perfformiad yn parhau i adlewyrchu dangosyddion statudol a chraidd yn unig ac nad yw wedi’i chysylltu ag amcanion gwella, mae’r Awdurdod wrthi’n ystyried ar hyn o bryd pa fesurau perfformiad sy’n helpu orau i egluro cynnydd.

40 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod tân ac achub yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau tân ac achub yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod tân ac achub wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

41 Mae'r Awdurdod wedi parhau i ddatblygu ei ddarpariaeth gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd yn ystod 2011-12, trwy recriwtio staff dwyieithog i weithio ar ei brif dderbynfa. Croesawodd y Comisiynydd fwriad yr Awdurdod i roi Strategaeth Recriwtio a Hyfforddi ar waith yn yr ardaloedd rheoli sirol hynny lle darganfyddir fod sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu yn is na'r angen lleol. Byddai sicrhau fod y strategaeth hon ar waith mor fuan â phosibl yn gam cadarnhaol wrth ddatblygu gweithlu dwyieithog. Mae proses graffu gadarn yr Awdurdod, fodd bynnag, wedi nodi'r angen am fwy o hyfforddiant er mwyn sicrhau fod yr holl adrannau yn cydymffurfio'n llawn â'i *Gynllun Iaith Gymraeg* wrth ohebu â'r cyhoedd. Mae disgwyl i'r Awdurdod gryfhau ei rôl cydymffurfiaeth yn ystod 2013 ac mae wedi ei ymrwymo i ddarparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer Gweinyddwyr, cyflwyno canllawiau penodol ar gyfer staff ac i gryfhau trefniadau llunio adroddiadau.

## Mae'r Awdurdod yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol

42 Mae gan yr Awdurdod ddull rheoli ariannol cadarn, er bod maint y newid sydd ei angen yn golygu y bydd angen arweiniad a chyfeiriad clir o hyd.

43 Dengys y rhagolwg ariannol ar gyfer y cyfnod tair blynedd hyd at 2014-15 fod angen i'r Awdurdod gyflawni arbedion effeithlonrwydd rhagamcanol cronnol o £2 filiwn yn ogystal â'r £1.2 miliwn a gyflawnwyd yn 2011-12. Diweddarodd yr Awdurdod y rhagolwg fel rhan o broses pennu cyllideb 2013-14 a byddwn yn ei adolygu fel rhan o'n gwaith yn ystod 2013-14.

44 Er bod dull yr Awdurdod o fynd i'r afael â'i heriau ariannol wedi bod yn gadarn ac wedi'i reoli'n dda hyd yma, erys problemau o ystyried y lleihad tebygol mewn arian canolog mewn termau real hyd at 2016-17 a thu hwnt. Mae'r Awdurdod yn parhau i chwilio am gyfleoedd i wneud mwy o arbedion effeithlonrwydd, yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u nodi. Caiff rhan o'r gwaith hwn ei wneud drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol a sefydlwyd yn ddiweddar a fydd yn ystyried y potensial am arbedion effeithlonrwydd a chydweithredu ar draws y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn ogystal â chyda'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol ehangach.

45 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei barn ar gyfrifon yr Awdurdod yn ddiweddar ac yn seiliedig ar hyn, mae'r Archwilydd Penodedig o'r farn bod y datganiadau ariannol yn foddhaol. Rhoddwyd barn ddiamod ar y cyfrifon ar 27 Medi 2012 a grynhowyd yn ei Llythyr Archwilio Blynyddol – mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

## Gwneir cynnydd da i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol

46 Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran gweithredu cynigion ar gyfer gwella yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol 2012.

47 Yn ystod Hydref 2012, adolygodd y Tîm Asesu Cymheiriaid y dystiolaeth a gyflwynwyd yn hunanasesiad yr Awdurdod er mwyn asesu'r 'cyfeiriad teithio' wrth weithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn flaenorol. Gwnaeth y Tîm waith dilynol ar y meysydd i'w datblygu mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch, Hyfforddiant a Datblygiad, Diogelwch Cymunedol a Lleihau'r Risg i'r Gymuned, a Thrin ac Ymateb i Alwadau. Yn gyffredinol, nododd y Tîm gynnydd ym mhob un o'r meysydd gyda rhai gwelliannau eraill wedi'u cynllunio ac roedd yn cytuno â'r cynnydd a nodwyd yn hunanasesiadau'r Awdurdod.

## Er bod rhai gwendidau, mae'r Awdurdod yn parhau i wella ei ddull o ymgysylltu â'r cyhoedd

48 Gwnaethom adolygu dull yr Awdurdod o ymgysylltu â'r cyhoedd a daethom i'r casgliad bod yr Awdurdod yn dangos ymrwymiad cryf tuag at ddatblygu ei weithgarwch o ran ymgysylltu â'r cyhoedd, a oedd i'w weld yn y trefniadau ar gyfer cydweithredu â phartneriaid a chleientiaid i ddiwallu anghenion aelodau o'r gymuned sy'n agored i niwed. Bellach mae angen iddo ddatblygu dull cydgysylltiedig a strategol mwy cynhwysfawr o ymgysylltu â'r cyhoedd a sicrhau y caiff data sy'n deillio o'i weithgareddau ymgysylltu ei werthuso'n fwy effeithiol.

## Mae'r trefniadau llywodraethu wedi cael eu hadolygu'n effeithiol fel rhan o broses Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod

49 Gwnaethom ystyried dull yr Awdurdod o Lywodraethu. Gwerthuswyd effeithiolrwydd adolygiad yr Awdurdod o Lywodraethu, a daethpwyd i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi ystyried ei drefniadau Llywodraethu ei hun mewn ffordd gynhwysfawr a thrylwyr. Roedd ei adolygiad drwy gwblhau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn drylwyr ac yn gadarn ac roedd yn ddigon pellgyrhaeddol. Mae'r Awdurdod wedi gwneud defnydd o'i God Llywodraethu Corfforaethol er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag egwyddorion Llywodraethu cadarn. Mae'r Awdurdod wedi nodi meysydd y mae angen eu gwella yn ei drefniadau ac wedi gwneud cynlluniau i fynd i'r afael â hwy.

50 Mae pedwar maes allweddol lle y dylid rhoi mwy o bwyslais ar adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:

- sicrhau bod y staff yn cael eu cynnwys yn fwy ar draws yr Awdurdod;
- rhoi mwy o bwyslais ar ymgysylltu â'r gymuned;
- sicrhau y gwneir cymhariaeth ddigonol o berfformiad ag awdurdodau gwella eraill:
- gwell proses ar gyfer ystyried y trefniadau Llywodraethu mewn perthynas â phartneriaethau a gwaith comisiynu.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Yr Awdurdod

Mae'n rhaid i'r Awdurdod gyflawni'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol. Mae tri darn pwysig o ddeddfwriaeth yn ymwneud ag awdurdodau tân:

## Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân wneud darpariaeth ar gyfer diffodd tanau, sydd hefyd yn golygu diogelu bywydau ac eiddo mewn achosion o dân yn ogystal â diffodd tanau. Mae hefyd yn darparu ar gyfer ymateb i wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac achosion brys eraill yn ogystal â gweithgareddau diogelwch cymunedol.

## Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Hydref 2006, gan ddisodli dros 70 o ddarnau unigol o ddeddfwriaeth diogelwch tân. Diddymwyd y gofyniad i fusnesau feddu ar dystysgrifau tân. Mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn gymwys i bob safle annomestig yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys rhannau cyffredin blociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Mae'n rhoi cyfrifoldeb i'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â diogelwch tân a sicrhau y caiff risgiau eu hadolygu'n barhaus. O dan y Gorchymyn mae'n ofynnol i'r Person Cyfrifol[2] gynnal asesiad risg tân a rhoi mesurau diogelwch tân priodol ar waith er mwyn sicrhau'r risg leiaf posibl i fywydau o ganlyniad i dân; a sicrhau bod yr asesiad yn gyfredol. Caiff y Gorchymyn ei orfodi gan Awdurdodau Tân ac Achub y disgwylir iddynt ddatblygu cyfundrefnau arolygu priodol yn seiliedig ar risg.

## Deddf Argyfyngau Sifil 2004

Mae'r Ddeddf yn darparu un fframwaith ar gyfer mesurau amddiffyn sifil yn y Deyrnas Unedig a all ateb heriau'r unfed ganrif ar hugain. Mae'r Ddeddf wedi'i rhannu'n ddwy; Rhan 1 sy'n diffinio rhwymedigaethau sefydliadau penodol i baratoi ar gyfer mathau amrywiol o argyfyngau a Rhan 2 sy'n darparu pwerau ychwanegol i'w defnyddio gan y Llywodraeth os bydd argyfwng difrifol. O dan y Ddeddf caiff gwasanaethau tân ac achub eu diffinio'n Ymatebwyr Categori 1 ac fel y cyfryw mae ganddynt chwe dyletswydd benodol i'w cyflawni:

- asesu'r risg o argyfyngau a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio gwaith cynllunio wrth gefn;
- rhoi cynlluniau argyfwng ar waith;
- rhoi trefniadau Rheoli Parhad Busnes ar waith;

2 Mae dogfennau Cyfraith a Chanllawiau Diogelwch Tân yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i fusnesau yn datgan bod y gyfraith yn gymwys os ydych: yn gyfrifol am safle busnes, yn gyflogwr neu'n unigolyn hunangyflogedig sydd â safle busnes, yn gyfrifol am ran o anheddiad sy'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion busnes, yn elusen neu'n sefydliad gwirfoddol, yn gontractwr â rhywfaint o reolaeth dros unrhyw safle, yn darparu llety i westeion sy'n talu.

- rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am faterion amddiffyn sifil a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd os bydd argyfwng;
- rhannu gwybodaeth ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella'r broses gydgysylltu;
- cydweithio ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella prosesau cydgysylltu ac effeithlonrwydd.

Gosodir dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol sef:

- Rhoi cyngor a chymorth i fusnesau a sefydliadau gwirfoddol mewn perthynas â rheoli parhad busnes. Gellir galw ar wasanaethau tân ac achub lleol i gynorthwyo â'r rôl hon.

Mae sefydliadau Categori 2 yn cynnwys sefydliadau megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cwmnïau trafnidiaeth a chwmnïau cyfleustodau. Bydd sefydliadau Categori 1 a 2 yn sefydlu Fforymau Cydnerthu Lleol (yn seiliedig ar ardaloedd yr heddlu) a fydd yn helpu ymatebwyr i gydgysylltu a chydweithio ar lefel leol.

Caiff yr Awdurdod ei ariannu'n uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol sy'n rhan ohono yn seiliedig ar yr etholwyr cofrestredig ym mhob ardal. Mae'n cynnwys 25 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (pennir nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod perthnasol yn ôl nifer yr etholwyr llywodraeth leol cofrestredig ym mhob ardal).

Mae'r Awdurdod yn gwario tua £45 miliwn y flwyddyn (2011-12). Yn yr un flwyddyn, gwariodd yr Awdurdod £7.6 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd. Mae hyn yn cyfateb i tua £51 fesul preswylydd.

Cadeirydd presennol yr Awdurdod Tân ac Achub yw'r Cynghorydd Roy Llewellyn.

Yr Awdurdod yw'r prif gorff ar gyfer llunio polisïau ac mae'n llywodraethu'r broses o fabwysiadu arferion gwaith amrywiol yn unol â chanllawiau statudol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cyfarfod bob chwarter ac ategir ei waith gan bedwar prif bwyllgor; sef Archwilio Perfformiad a Chraffu; Rheoli Adnoddau; Safonau; a Chydnabyddiaeth. Mae'r grwpiau hyn i gyd yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried materion o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion o drafodion yr Awdurdod ar gael ar ei wefan.

Arweinir a rheolir y Gwasanaeth gan Richard Smith, y Prif Swyddog Tân, gyda chymorth y Bwrdd Gweithredol sy'n cynnwys y Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion sy'n arwain cyfarwyddiaethau gweithredol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan yr Awdurdod ei hun yn www.mawwfire.gov.uk neu cysylltwch â'r Awdurdod ym Mhencadlys yr Awdurdod, Lime Grove Avenue, Caerfyrddin, SA31 1SP.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Richard Smith
Prif Swyddog Tân
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lime Grove Avenue
Caerfyrddin
SA31 1SP

Annwyl Richard

**Llythyr Archwilio Blynyddol**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 27 Medi 2012, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau o'r Awdurdod Tân yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 17 Medi 2012.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd hyd yn hyn fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 27 Medi 2012.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 fod yn unol â'r swm a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

Virginia Stevens
Dros ac ar Ran yr Archwilydd Penodedig
Copi at Elizabeth Aitken, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Amcanion gwella'r Awdurdod

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu gwneud i wella. Rhaid i'r Awdurdod wneud hyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'r cynllun yn ymwneud â hi (bwriad y polisi yw y bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn cyhoeddi rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth).

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion gwella ar gyfer 2011-12 a 2012-13 ar wefan yr Awdurdod yn www.mawwfire.gov.uk. Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| Amcanion Gwella 2011-12 | Amcanion Gwella 2012-13 |
|---|---|
| **1 Gwerth am Arian:**<br>Rhoi canlyniadau allweddol Rhaglen Adolygu Gwasanaethau 2010-11 ar waith er mwyn lleihau costau a darparu gwasanaethau'n fwy effeithlon. | **Rheoli Risg**<br>Mae plant a phobl ifanc yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn ddiogel ac yn ddinasyddion cyfrifol. |
| | **Beth y byddwn yn ei wneud yn 2012-13**<br>• Gweithio gyda phartneriaid i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd a rhoi addysg ar ddiogelwch cymunedol a dinasyddiaeth cyfrifol.<br>• Defnyddio ein Tîm Ieuenctid Arbenigol i annog plant a phobl ifanc i ymwrthod â throseddau sy'n ymwneud â thân ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig.<br>• Nodi a lledaenu arfer da wrth weithio gyda Phlant a Phobl Ifanc.<br>• Datblygu strategaethau gyda phartneriaid fel Timau Troseddwyr Ifanc i sicrhau ein bod yn cyrraedd y rheini sydd angen ein cymorth fwyaf.<br>• Gwerthuso effeithiolrwydd ein mentrau a'n hymyriadau partneriaethol i leihau tanau bwriadol.<br>• Rhoi 'Strategaeth yr Awdurdodau Tân ac Achub ar gyfer Plant a Phobl Ifanc' ar waith. |

| Amcanion Gwella 2011-12 | Amcanion Gwella 2012-13 |
|---|---|
| **2 Ymateb Brys:**<br>Mae trefniadau effeithiol o ran diogelwch a lles cyflogeion yn ein helpu i ateb yr heriau a wynebir mewn digwyddiadau brys a bydd trefniadau cadarn o ran hyfforddiant ac ymateb yn helpu i gyflawni hyn. | **Rheoli Pobl**<br>Gweithlu sy'n meddu ar sgiliau lluosog, yn gymwys, yn ddiogel ac yn hyblyg ac yn diwallu anghenion ein cymunedau. |
| | **Beth y byddwn yn ei wneud yn 2012-13**<br>Sicrhau bod ein cyflogeion yn meddu ar sgiliau a gwybodaeth ychwanegol ym maes rheoli a chyfathrebu er mwyn ategu:<br>• Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cymru Gyfan<br>• Cyfathrebu Effeithiol<br>• Rheolwyr ysbrydoledig, llawn cymhelliant<br>• Ymwybyddiaeth ryngadrannol<br>• Sgiliau goruchwylio estynedig<br>• Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch<br>• Mentora cydweithwyr |
| **3 Cydnerthu Cymunedau:**<br>Parhau i ddatblygu ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau eithriadol sy'n effeithio ar ein cymunedau a'r Gwasanaeth drwy weithio gydag asiantaethau partner i ddatblygu ac ymarfer cynlluniau brys. | **Cydweithio**<br>Bod dinasyddion sy'n agored i niwed yn byw'n ddiogel yn ein cymunedau |
| | **Beth y byddwn yn ei wneud yn 2012-13**<br>• Cydweithredu gyda gwasanaethau brys eraill ac asiantaethau eraill fel Byrddau Iechyd Lleol.<br>• Parhau i ddatblygu partneriaethau gyda'r sector gwirfoddol a'r sector gofal.<br>• Defnyddio ein Cydgysylltydd Trydydd Sector a'n Swyddog Partneriaethau i nodi partneriaid.<br>• Parhau i weithio gydag arbenigwyr o'r Byrddau Iechyd Lleol i nodi pobl sy'n agored i niwed.<br>• Nodi a rhannu unrhyw ddata a ddelir gennym a all fod o fudd i bartneriaid.<br>• Datblygu technoleg i hwyluso'r broses o rannu data.<br>• Monitro ac adolygu ein partneriaethau presennol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol ac yn effeithiol.<br>• Rhannu digwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd gyda Gwasanaethau eraill. |

| Amcanion Gwella 2011-12 | Amcanion Gwella 2012-13 |
| --- | --- |
| **4 Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd:**<br>Gwnaethom gyhoeddi ein Strategaeth ar Gynaliadwyedd a'r Amgylchedd ym mis Mehefin 2009 gan nodi ein gweledigaeth ar gyfer sut y byddwn yn cyfrannu at yr agenda hon. | **Rheoli Adnoddau**<br>Gwasanaeth llwyddiannus ac effeithlon, sy'n rheoli adnoddau yn effeithiol ac yn darparu gwerth ardderchog am arian i'n cymunedau. |
| | **Beth y byddwn yn ei wneud yn 2012-2013**<br>Rhoi gwasanaeth i Gymuned Llanelli sy'n diwallu ei hanghenion drwy ddatblygu system criwio yng Ngorsaf Dân Gymunedol Llanelli sy'n:<br>• Adlewyrchu proffil y gymuned leol.<br>• Sicrhau bod staff llawn amser ar gael 24 awr y dydd.<br>• Cynnal amseroedd ymateb.<br>• Defnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithlon.<br>Parhau i gyflwyno'r gwelliannau i'r trefniadau Gwybodaeth a Chyfathrebu, fel y'u nodwyd yn Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru. |
| **5 Gweithio mewn Partneriaeth:**<br>Datblygu ein gwaith partneriaeth strategol er mwyn sicrhau y caiff ein nodau o ran diogelwch cymunedol eu cyflawni. | |

## Hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad

Mae hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn ystod 2011-12 ar gael ar wefan yr Awdurdod www.mawwfire.gov.uk (Asesiad o Berfformiad 2011-12).

# Atodiad 5
# Cynigion ar gyfer gwella 2012-13

| Cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn 2012-13 | |
|---|---|
| C1 | Parhau i ddatblygu prosesau corfforaethol er mwyn hyrwyddo'r gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd, yn arbennig:<br>• datblygu dull mwy strategol, cydgysylltiedig a chynlluniedig er mwyn cynnwys pob gweithgaredd ymgysylltu â'r cyhoedd, lleihau achosion o ddyblygu gwaith, nodi meysydd risg, y cyllidebau a'r adnoddau gofynnol;<br>• nodi a diffinio canlyniadau ar gyfer pob gweithgaredd ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn helpu i flaenoriaethu pa weithgaredd ymgysylltu sy'n hanfodol i'r Awdurdod, ei bartneriaid a'r cyhoedd a wasanaethir ganddo. |
| C2 | Datblygu dulliau mwy cadarn ar gyfer dadansoddi a gwerthuso'r canlyniadau a'r data sy'n deillio o'r holl weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd. |
| C3 | Rhoi adborth manylach i'r cyhoedd a rhanddeiliaid er mwyn dangos yn glir ac yn fanylach sut y mae eu cyfraniad wedi gwella gwasanaethau ac felly wedi dylanwadu ar yr hyn a wna'r Awdurdod. |
| C4 | Cyhoeddi Crynodeb o'r Asesiad o Berfformiad er mwyn darparu diweddariad clir a chryno i'r cyhoedd a helpu'r Awdurdod i esbonio ei gyflawniadau a'r heriau sy'n ei wynebu yn y dyfodol. Dylai hyn fod ar gael yn eang a dylai gyfeirio at ffynonellau gwybodaeth bellach. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk